y Dinesydd

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD
GORFFENNAF/AWST 1993 RHIF 195

# YR URDD YN WYNEBU'R HER

**Mentro Ailbenodi**

Yn eu cyfarfod yn Aberystwyth yn ddiweddar rhoddodd Cyngor Cenedlaethol yr Urdd sêl eu bendith ar benderfyniad eu Pwyllgor Staffio i ailbenodi i swydd Swyddog Datblygu/Warden y Ganolfan yng Nghaerdydd. Hyn er gwaethaf y ffaith i Gyngor De Morgannwg ddileu'r grant penodol oedd yn ariannu'r swydd ers mis Ebrill. Y bwriad yw penodi cyn gynted ag y bo modd gan hysbysebu am un person llawn amser neu ddau berson rhan amser ond ar gytundeb blwyddyn yn unig.

Bydd yr Urdd yn adolygu pob swydd yn awr wrth iddi ddod yn wag. Deallwn mai dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor Staffio ystyried naill ai ailbenodi neu ddileu swydd Swyddog Datblygu ers i nifer o Gynghorau Sir wrthod parhau i gyfrannu'n ariannol tuag at gynnal rhai o'r swyddi hyn. Yr Urdd yn ganolog fu'n talu cyflog llawn Huw Davies fel Swyddog Datblygu De Morgannwg a Warden y Ganolfan ers mis Ebrill. Ei benderfyniad ef i roi'r gorau i'w swydd sydd wedi gorfodi'r Urdd yn ganolog i ail edrych ar eu strwythur staffio. Wrth benderfynu ailbenodi fe fydd y Brif Swyddfa yn Aberystwyth yn parhau i ariannu'r swydd am flwyddyn o leiaf ond mae'n sicr y byddan nhw am weld mwy o gyfraniad gan yr Urdd yn lleol tuag at goffrau canolog y Mudiad.

**Addasu'r Ganolfan**


Wrth i bwyllgor rheoli Canolfan yr Urdd groesawu'r newydd am ail benodi Warden i'r Ganolfan datgelwyd eu bod yn bwrw 'mlaen â chynlluniau i addasu rhan isaf yr adeilad. Bwriad yr addasu yw galluogi Ysgol Feithrin newydd i agor yno ym mis Medi yn gwasanaethu rhan o ardal Treganna.

**Holi'r ifanc**

Her arall mae'r pwyllgor am ei wynebu yw ceisio denu rhagor o bobl ifanc yn eu harddegau i droi i mewn i'r Ganolfan. Mae cryn weithgarwch yno eisoes gydag Uwchadran, Adran Bentref Llandaf a'r Aelwyd ar nos Wener heb son am yr amryfal fudiadau Cymraeg eraill sy'n defnyddio'r lle. Er mwyn denu mwy i'r Aelwyd yn arbennig mae'r pwyllgor wrthi ar hyn o bryd yn dosbarthu holiaduron ac yn casglu ymateb disgyblion Glantaf ac ysgolion uwchradd eraill er mwyn clywed am y math o gyfleusterau yr hoffen nhw eu gweld yno (Tafarn Tomato Jiws efallai - Gol.). Chi ddarllenwyr ifanc anfonwch eich holiaduron i mewn felly ac mae croeso i chi ddefnyddio tudalennau'r Dinesydd i fynegi barn.

## Agor Ysgol Newydd

Wrth i ni fynd i'r wasg cadarnhaodd Awdurdod Addysg De Morgannwg y bydd dosbarth derbyn Cymraeg i blant 4 oed yn cael ei sefydlu ym mis Medi ar gyfer ardaloedd Penylan a'r Rhath. Bydd y dosbarth, fydd yn derbyn 30 o blant o'r cylchoedd meithrin lleol, yn hen safle Ysgol Howardian. Dyma'r cam cyntaf, yn ôl Alun Davies y dirprwy Gyfarwyddwr Addysg, tuag at sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd i ddarparu ar gyfer y twf yn y galw am addysg Gymraeg yn y brifddinas.



Plant Ysgol Bro Eirwg.

Gweler tud. 7

# Surrexit

**MAE'R NEGES YN GLIR**

*DYLUNIO*
*CYHOEDDI*
*GOLYGU*
*HYSBYSEBU*
*MARCHNATA*
*CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS*

**0222 578772**

fax 0222 567639

PARC AFON BRIDGE ROAD YSTUM TAF CAERDYDD CF4 2JL



celtic
HENDERSON CROSTHWAITE

BROCERIAID STOC A RHEOLWYR
BUDDSODDI ANNIBYNNOL
Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru

## "Yng ngheg y sach y mae cynilo"

**Yn gyntaf, dewch i siarad â ni**

**Dafydd Hampson-Jones**

**neu Howard Bailey**

Tŷ Penhill, Heol Penhill, Caerdydd, CF1 9UP
ffôn (0222) 394021/6 ffacs (0222) 228452

Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn rhan o grŵp Guinness Mahon Holdings ccc., yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain.



## Wrth symud tŷ...

Am 30 mlynedd mae Hugh James wedi bod yn gweithredu ar ran Cymry Cymraeg yr ardal wrth iddynt symud tŷ gan ddarparu siaradwyr Cymraeg fel y bont yn gallu trafod materion drwy gyfrwng yr iaith.

## ...does dim rhaid newid iaith

Dyna paham y mae cymaint o Gymry Cymraeg yn dod atom ni ar gyfer eu gofynion cyfreithiol. Gwyddont y caent wasanaeth cyflym ac effeithiol. Felly pan feddyliwch am symud tŷ nesaf, beth am gysylltu â ni gyntaf.

**Cysylltwch â Ceri Preece neu**
**Sylvia Millward**
**Hugh James Jones & Jenkins**
**Tŷ Arlbee, Heol y Brodyr Llwydion**
**Caerdydd CF1 4QB. Ffôn 0222/224871**

Hugh James
Jones & Jenkins



## *CYTUNDEB IS-DEITLO POBOL Y CWM*

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y cytundeb uchod oddi wrth gwmnïau is-deitlo, neu asiantaethau cyfieithu. Y mae'r cytundeb yn cwmpasu'r holl gyfrifoldeb am baratoi, golygu a darlledu is-deitlau yn yr iaith Saesneg ar gyfer Pobol y Cwm am gyfnod o flwyddyn, gan ddechrau ym mis Medi, 1993.

Rhaid wrth gymwsterau cyfieithu addas, a'r gallu i ysgrifennu mewn iaith gyhyrog, effeithiol a chywir. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus i weithio dan bwysau a chwblhau gwaith erbyn amser penodol.

Nid oes angen i'r ymgeisydd fod yn berchen ar offer priodol, ond mae profiad o is-deitlo, neu o gyfieithu gan ddefnyddio cyfrifiaduron o fantais.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Emlyn Owen**
**Pennaeth yr Adran Teletestun**
**S4C**
**Parc Tŷ Glas**
**Llanisien**
**Caerdydd CF4 5DU**
**(0222) 747444**

Dyddiad Cau:
23 Gorffennaf 1993

S4C

# Penblwydd Hapus Bobath Cymru

Ydy, mae Bobath Cymru yn un oed! Blwyddyn yn ôl ym Mehefin '92 agorwyd y Ganolfan Arbenigol yn yr Eglwys Newydd, er mwyn cynnig therapi i blant sy'n dioddef o barlys yr ymennydd. Erbyn hyn mae dros gant o blant o Wynedd i Went wedi derbyn mil o sesiynau therapi arbenigol yno a hynny YN RHAD AC AM DDIM. Yn wir cymaint fu'r galw am y driniaeth nes bod 85 o blant ar y rhestr aros yn barod. Dyna faint y gwaith sy'n wynebu'r ganolfan, a dyna pam y mae chwilio di-baid am gymorth ariannol. Fel y gallwch ddychmygu, mae costau rhedeg canolfan o'r fath yn sylweddol. Er enghraifft:

£250 y plentyn am driniaeth wythnos.

£2,000 y plentyn am driniaeth gyflawn.

£20,000 yn gyflog un Therapydd Arbenigol. Ac mae gennym dri yma yng Nghaerdydd.

Elusen gofrestredig yw Bobath sy'n dibynnu'n llwyr ar roddion y cyhoedd, ac mae'n bleser gen i ddweud bod y gefnogaeth a dderbyniwyd eisoes gan Gymry Cymraeg dalgylch y Dinesydd wedi bod yn allweddol yn natblygiad y Ganolfan, a mawr yw diolch y plant a rhieni. A mawr yw ein gobaith hefyd y bydd na bennawd yn y papur hwn yn y flwyddyn 2002 yn nodi bod 'Bobath yn Dathlu Deg'.

Os hoffech fwy o wybodaeth am Bobath Cymru, neu os hoffech gyfrannu mewn unrhyw ffordd i waith y ganolfan, cysylltwch â Glenys Evans, Bobath Cymru, 19 Ffordd y Parc, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7BP (0222) 522600

DELWYN SIÔN

# I'R AMERIG

I ble yr ewch chi ar eich gwyliau eleni, tybed? Yn oriau mân un bore Sadwrn yng Ngorffennaf bydd bws mini yn gwibio ar hyd yr M4 i faes awyr Heathrow yn cario criw o Gymry ifanc Caerdydd ar eu ffordd i dair wythnos o wyliau yn America. Dyma rai o aelodau 'Operation Friendship', cymdeithas sy'n trefnu gwyliau cyfnewid i ieuenctid 15 - 21 oed. Mae tair cangen yng Nghymru, un ym Môn, un yn Bala ac un yng Nghaerdydd yn gysylltiedig â Chlwb Ieuenctid Crwys. Sefydlwyd y gangen chwe blynedd yn ôl ac mae'n cynyddu'n flynyddol. Yn ystod haf 1992 buom yn lletya wyth o Americanwyr ac eleni ein tro ni yw teithio. Byddwn yn aros yng nghartrefi ieuenctid o'r un oed a ni yn Leicester MA. Gwyddom fod yna raglen o hwyl a sbri wedi ei pharatoi ar ein cyfer ac efallai y byddwn yn fodlon datgelu peth o hynt a helynt y gwyliau i chi yn y rhifyn nesaf!

Aled Williams

# Croeso i'r brifddinas

Cyn hir cawn groesawu Hywel Jones a'i deulu i'n plith. Hyd yn ddiweddar, roedd Hywel, sy'n hanu o sir Fon, yn Bennaeth Gwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn. Ef yw Cyfarwyddwr newydd Mudiad Ysgolion Meithrin. Nid yw'r ddinas yn ddieithr iddo o bell ffordd gan iddo fod yn fyfyriwr yng Ngholeg Addysg Cyncoed. Mae ei wraig, Siân, yn awdur nifer o lyfrau i blant a phobl ifanc.



**Gwahoddiad gan Gymdeithas Carnhuanawc**

Annwyl ddarllenwyr

Hoffwn ar ran Cymdeithas Carnhuanawc eich gwahodd i ymuno â ni ar 31 Gorffennaf (Sadwrn cynta'r Eisteddfod yn Llanelwedd) i goffáu'r Cymro a'r gwladgarwr Carnhuanawc, y Parchedig Thomas Price (1787 - 1848).

Ein bwriad yw i Janet Davies, awdur The Welsh Language ddadorchuddio cofeb iddo (am ddau o'r gloch) yn y Gelli Felen ger Llanelli Hill, Brynmawr ar dŷ ble y sefydlodd Carnhuanawc ysgol ddyddiol Gymraeg i blant gweithwyr yr ardal yn 1820.

I ddilyn (am dri or gloch) bydd darlith gan Dr John Davies ar Garnhuanawc yn Eglwys Cwm-du lle y bu'n gurad. Fe'i claddwyd yn y fynwent yno.

Gŵr o flaen ei oes oedd Carnhuanawc; Cymro oedd yn barod i weithredu. Gwelai bwysigrwydd rhoi addysg i blant yn iaith eu mamau mewn oes pan nad oedd hynny'n dderbyniol. Roedd yn eisteddfodwr brwd, yn awdur, yn naturiaethwr, yn gerddor ac yn hanesydd. Ef a ysgrifennodd Hanes Cymru (1842). Ymhyfrydai yn y delyn a dawnsiau ei oes.

Ymysg ei gyfoedion a'i gyfeillion oedd Maria Jane Williams, Ysgafell, ac Arglwyddes Llanofer.

Wedi'r ddarlith gobeithiwn gymdeithasu a chael lluniaeth yn un o dafarndai'r pentref. Am unrhyw wybodaeth bellach neu fap, cysylltwch â Chaerdydd (0222) 623275.

Yn gywir, Alan Jobbins

(Ysgrifennydd Cymdeithas Carnuanawc)

47 Heol Wingfield

Yr Eglwys Newydd

Caerdydd.

# Gair i'n Darllenwyr

Gwilym Roberts fu'n gyfrifol am olygu'r ddau rifyn diwethaf o'r Dinesydd. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ymgymryd â'r gwaith ac yn dymuno'n dda iddo wrth iddo ddychwelyd i Batagonia.

I geisio llenwi'r bwlch a adawyd gan Gwilym sefydlwyd Bwrdd Golygyddol i fod yn gyfrifol am olygu'r Dinesydd o hyn ymlaen.

Eich papur chi yw'r Dinesydd, cysylltwch â ni i leisio'ch barn ar gynnwys y papur a byddwch yn barod i'n perswadio ein bod ar y trywydd cywir. Rydym yn awyddus i gynnwys newyddion o bob rhan o'r ddinas a'r cyffiniau ac o bob cylch gweithgarwch, os yw'n hawlio sylw ehangach. Os oes unrhyw un ohonoch yn fodlon cyfrannu mewn unrhyw fodd - er enghraifft trwy anfon pytiau newyddion neu ambell erthygl ddifyr o dro i dro, bod yn gyfrifol am gasglu deunydd, teipio neu ddarllen proflenni, bod yn aelod o'r tim dosbarthu ac yn y blaen yna cysylltwch â ni.

Mae cyfnod newydd o'n blaen ac rydym yn awyddus i gael eich barn chi a chymorth cynifer o'n cyd-ddinasyddion ag sy'n bosibl.


## Y Dinesydd

BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.
ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRYCYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD (0222) 598243.

*Cyfraddau hysbysebion sylw (mono): tudalen lawn £350;*
*hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100;*
*wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7.*
*Cyfradd hysbysebion cyhoeddi: £15.*

Dylid anfon unrhyw ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi o'r Dinesydd erbyn 16 Awst at Ysgrifennydd y Bwrdd Golygyddol: Catrin Lloyd Rowlands, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE

Cyhoeddir Y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd, gyda chefnogaeth ariannol Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig.



CHARLES Y SAER

SAER COED
CYNNAL A CHADW
MÂN WAITH ADEILADU

Charles Roberts
129 Fford Parc Ninian,
Glanyrafon, Caerdydd CF1 8HX
(0222) 342239.

ANFONWCH NEWYDDION I'R DINESYDD, OS OES RHYWUN YN BAROD I FOD YN GYFRIFOL AM GASGLU NEWYDDION YN EI ARDAL, CYSYLLTWCH Â'R DINESYDD

**Llandaf**

Llongyfarchiadau i Geraint a Ruth Walters ar ddathlu eu priodas arian. Hwyl ar y dathlu a phob dymuniad da.

Pob dymuniad da i Stella Mair Thomas ar ôl iddi gael llawdriniaeth ar ei phenglin yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Ruth Parry ar gael ei dewis yn un o ddarpar-ymgeiswyr Senedd Ewrop. Bydd ei bywyd hyd yn oed yn brysurach nag arfer yn dilyn hyn.

Dymunwn adferiad buan i Huw Davies, mab Seiriol a Vera Davies ar ôl llawdriniaeth ar ei fraich yn ddiweddar. Mae angen nerth bôn braich i weithio mewn banc!

Croeso i Gymro Cymraeg arall i Landaf. Bellach mae Rhys Lloyd Thomas, cyfreithiwr gyda Rees, Wood & Terry wedi ymgartrefu yn Caio, 13 Stryd y Capel. Mae'n hanu o'r Rhyl. Bydd clychau'r gadeirlan yn siŵr o sicrhau na fydd Rhys byth yn hwyr yn ei waith!

Llongyfarchiadau i Elin Angharad Edwards ar gael ei phenodi'n aelod o Gerddorfa Siambr yr Alban. Bydd yn ymgartrefu yn Glasgow ond gobeithir ei gweld yn ymweld â Llandaf yn weddol gyson.

Gyda dwyster y cydymdeimlwn â Charles a Jane Gale ar eu profedigaeth lem o golli mab, Laurence, a'r un modd â'i weddw Maria a'r mab bychan, Dewi. Colled fawr hefyd i Carmelo, Stephen, Daniel a Siân. Mae ein meddyliau efo'r teulu i gyd.

**COFIO CYMWYNASREG**

Ar 2 Mehefin bu farw Miss Mary Thomas yn 87 oed. Cafodd ei chodi yn y Barri, ond bu'n byw am tua 60 mlynedd yn yr Eglwys Newydd.

Bu'n athrawes yn Ysgol Gynradd Pen-tyrch am dros 30 mlynedd. Roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd ac yn Ysgrifenyddes ymroddedig am nifer o flynyddoedd. Bu'n aelod o nifer o gorau, gan gynnwys corau adnabyddus 'Cardiff Municipal' a'r 'Cardiff Philharmonic'.

Roedd yn aelod ffyddlon yn Eglwys Minny Street, lle cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei gwaith a'i bywyd, a nifer o'i chyfeillion yn bresennol.

**Rhiwbeina**

Ar nos Iau 10 Mehefin, yn nawfed cyfarfod Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ers ei sefydlu yn Hydref 1992, etholwyd swyddogion i drefnu ar gyfer tymor 1993/94. Y Cadeirydd yw Mair Dyfri Jones a Falmai Griffiths yn Is-Gadeirydd, Haydn Jones (2 Heol Wen) yn Ysgrifennydd, a Molly Davies yn Drysorydd. Yn ystod y cyfarfod cafwyd sgwrs gyda sleidiau gan Idwal Walters am gerrig hynafol Carnac a murluniau ogofeydd Ffrainc. Diweddwyd y tymor ar nos Iau 8 Gorffennaf, gyda swper pen-tymor yn nhafarn y Deri gyda Helen Prosser, Swyddog Cymraeg i Oedolion y Cyd-bwyllgor, yn wraig wadd.

Cynhaliwyd Twmpath Dawns llwyddiannus iawn gan Gylch Meithrin Rhiwbeina ar nos Sadwrn 12 Mehefin yn Neuadd Eglwys yr Holl Saint. Mae'r cylch hwn ar agor er Hydref 1959 a thros y blynyddoedd mae cannoedd o blant wedi bod yn ddisgyblion ynddo ac erbyn hyn mae'na ail genhedlaeth yn y cylch!

Llongyfarchiadau i Bethan Dyfri, Rhiwbeina, merch Dyfri a Mair Jones, ar ei dyweddiad â Neil Brackpool o Swydd Essex. Mae'r ddau yn gweithio fel gweithwyr cymdeithasol yn Colchester.

**Apêl am help o swyddfeydd Hel Straeon**

Annwyl gyfeillion

Tybed a allwch fy helpu? Rwy'n chwilio am Gymry Cymraeg difyr ym mhob rhan o'r byd. Byddwn yn falch pe baech yn cysylltu â mi un ai drwy lythyr i swyddfeydd Hel Straeon, Gronant, Caernarfon, neu trwy ffonio (0286) 677595.

Yn gywir

Ann Fon Jones

(Hel Straeon)

**Yr Eglwys Newydd**

Croeso cynnes i Mathew Rhys, mab newydd Elinor a Howard Patchell a brawd bach i Tomos Ifan.

Llongyfarchiadau i Huw Evans a Gill Davies ar achlysur eu priodas. Mae Huw yn fab i Valmai a'r diweddar Bernard Evans ac yn feddyg yng Nghastellnewydd Emlyn.

Bydd bwlch mawr yn mywyd Cymraeg yr Eglwys Newydd ar ôl Wyn a Heulwen Jones a'r plant. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd yn Nantgaredig.

Llongyfarchiadau i Eurig Davies ar ei benodi'n brifathro Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Yng nghyfarfod blynyddol Cymry'r Eglwys Newydd, trosglwyddwyd y llywyddiaeth i Mrs Mair Tysul Jones ac etholwyd y Parch Ddr Dafydd G Davies yn is-lywydd. Bydd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas am y gaeaf nesaf nos Wener 8 Hydref am 7.30pm yn festri Capel Bethel.

Bob blwyddyn mae Rhwydwaith Heddwch Morgannwg yn trefnu cystadleuaeth i blant ysgol ac yn cyhoeddi rhai o luniau a cherddi'r gystadleuaeth ar ffurf taflen liwgar. Llongyfarchiadau i Melanie Morris, Lucy Jennings ac Angharad Elfyn Jones o Ysgol Melin Gruffydd ar gael eu gwaith wedi'i gynnwys yn y daflen.

Llongyfarchiadau i Rhys Parry a Ceri Innes ar eu priodas yn Eglwys y Crwys ar ddydd Sadwrn 12 Mehefin. Mab Dr Emrys Parry ac Audrey Parry yw Rhys a Ceri yn ferch i Ann a'r diweddar Ken Innes, yr Eglwys Newydd. Mae Rhys a Ceri yn gweithio i S4C.

## LLONGYFARCHIADAU

I Meurig Rees, dirprwy brifathro Ysgol Tryfan, Bangor, ar ei benodiad yn brifathro Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy. Bydd llawer o ddarllenwyr y Dinesydd yn cofio ei rieni, sef Griff a Nesta Rees a'i chwaer Eluned, a fu'n aelodau selog yn y Crwys am flynyddoedd. Nesta oedd un o athrawesau cyntaf Cylch Meithrin y Crwys, sef yr ysgol feithrin Gymraeg gyntaf i'w sefydlu yng Nghaerdydd nôl yn 1951.

I Peter Spriggs, mab Howard a Gwenda Spriggs, Pontcanna, ar ei lwyddiant ym myd celf pan ddewiswyd un o'i baentiadau ar thema Gristnogol i'w arddangos yng nghystadleuaeth Arthur Henderson i Artistiaid Ifanc yn Llundain. Bydd yr enillydd yn derbyn gwobr o £5,000. Mae Peter yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Bryntaf ac ysgol Gyfun Llanhari. Enillodd radd dosbarth cyntaf yng Ngholeg Celf Caerdydd cyn mynd yn ei flaen i ennill gradd uwch yn Llundain. Wedi hynny, bu'n diwtor celf yn Llundain cyn dychwelyd i Gymru i fod yn ddarlithydd celf a dylunio yng Ngholeg Celf Dyfed yng Nghaerfyrddin.

I Siôn Saunders Davies a Cathrin Roberts ar eu priodas ddiweddar. Priododd y ddau yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Mae Siôn ar fin gorffen traethawd gradd uwch yno. Bydd Siôn yn dechrau mewn swydd gyda Phlaid Cymru yn Heol y Gadeirlan yn y man a gobaith Cathrin yw y caiff swydd dysg yn y ddinas.

I Angharad Saunders Davies, Hafod-lon ar ennill gradd BSc yn Hull. Hi yw gwyddonydd cynta'r teulu. Mae'n edrych ymlaen at yrfa mewn nyrsio.


I Geraint Stanley Jones, Prifweithredwr S4C ar dderbyn y CBE.

I Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr Cyngor y Celfyddydau, ar ennill gradd er anrhydedd Prifysgol Cymru.

**Cymdymdeimlad**

Yn ystod mis Mehefin ac yntau ond yn 57 oed bu farw'n sydyn y Parch. Arwyn Phillips, gweinidog Capel Mair, Aberteifi, a thad Aled Wyn ac Awen Phillips, y ddau yn gweithio i S4C yn Llanisien. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu colled fawr.

# Gwilym am y Gaiman



Mae blwyddyn wedi mynd heibio er i Gwilym Roberts, Rhiwbeina, ddychwelyd o'r Wladfa, ond erbyn y byddwch yn darllen y geiriau hyn bydd yn byw unwaith eto yn Tŷ'r Camwy, Stryd Michael D. Jones, Gaiman, Chubut, Ariannin. Mae'n siwr y byddai'n falch clywed oddi wrth ambell un ohonoch.

Mae wedi dychwelyd yno i ailafael yn ei waith o ddysgu a gloywi Cymraeg y nifer sylweddol sydd â diddordeb yn yr iaith. Rhan o waith Cymdeithas Cymry Ariannin yw hyn. Yn y blynyddoedd diwethaf mae ei gwaith wedi grymuso'n arw. Am bedair blynedd yn olynol mae athro'r Gymraeg wedi treulio blwyddyn yno. Newydd ddod yn ôl y mae Pedr McMullen, Abergwaun.

Problem llwyddiant yw problem y gymdeithas ar hyn o bryd. Yr haf yma mae tri o lanciau Patagonia yn dilyn cwrs carlam yn Llambed. Mae merch ifanc, Maria Zampini, wedi treulio tri mis yma ar gyrsiau hyfforddi mewn addysg feithrin. Ei gobaith yw sefydlu ysgol feithrin Gymraeg ar ôl dychwelyd i'r Gaiman. Mae'r Parchedig Arthur Meirion Roberts a'i briod wedi bod yno'n bugeilio'n ddiweddar. At hyn wrth gwrs mae papurau newyddion, cylchgronau a chasetiau Cymraeg yn cael eu hanfon allan yn gyson ac ymdrecha'r gymdeithas i gynnal myfyriwr o'r Wladfa yng Ngholeg Harlech bob blwyddyn.

# EIC DAVIES

Athro, Adroddwr, Actiwr, Dramodydd, Cynhyrchydd - dyn amryddawn a gyfrannodd yr hael o'i ddoniau i bob cymdeithas yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yng Nghaerdydd cyn ac ar ôl y Rhyfel. I Gymry ifainc a ddôi i'r brifddinas - i ganol môr o Seisnigrwydd - roedd hafan deg yn Nhŷ'r Cymry ac yn arwain y gweithgareddau hynny roedd Eic a'i hiwmor difalais a'i chwerthin iach a'i dynnu coes. Ef a sefydlodd Cymdeithas Twm o'r Nant a esgorodd ar nosweithiau llawen a chwmnïau dramâu. Coffa da am chwarae *Yr Anfarwol Ifan Harries* (Idwal Jones) anterliwt *Tri Chryfion Byd*, *Y Doctor ar ei Waethaf* (cyfieithiad Saunders Lewis o waith Moliere), *Pum Peso ar y Sul* (cyfieithiad Eic).

Roedd yn un o sefydlwyr Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru gyda Gwyn Daniel, Victor Hampson-Jones ac eraill.

Roedd yn hoff o blant ac yn deall meddwl plentyn fel y tystia'r dramâu llawn hwyl a stori a ysgrifennodd ar gyfer plant ac a berfformiwyd yng nghystadlaethau'r Urdd.

Cyfrannodd sgriptiau ar gyfer y radio ac i'r gyfres 'Teulu Tŷ Coch' yn arbennig. Dyn rygbi, wrth gwrs, a'n dyled iddo'n fawr am lunio termau Cymraeg i'r gêm a ddaeth yn rhan fyw o bob sylwebaeth oddi ar hynny - y termau sydd mor rhugl ar dafod ei fab Huw.

Roedd Eic yn dda am adnabod dawn plant a'u potensial, fel y tystia Siân Phillips a Mary Hopkin a ddysgwyd ac a hybwyd ganddo yn Ysgol Ramadeg Pontardawe.

Eic y Parc ar y Gwrhyd yn enghraifft o ddawn gwŷr Cwmtawe ar ei gorau. Coffa da amdano a diolch am gael ei adnabod a'i alw'n gyfaill.

GUNSTON JONES

## DATHLU PRIODAS EURAID YN EBENESER

Fe fydd yna edrych ymlaen bob amser at ymweliad blynyddol y Parchedig Ddr a Mrs Emlyn Jenkins, ond eleni roedd yna ryw gyffro ychwanegol gan fod y ddau yn dathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol ar 22 Mehefin.

I ddathlu'r achlysur, trefnwyd te arbennig yn y festri ar y prynhawn Sul a daeth torf ynghyd i'w llongyfarch ac i gydlawenhau. Hyfryd oedd cael croesawu Huw, eu mab, a'i briod ynghyd a Nia, yr unig wyres, sydd erbyn hyn yn fyfyrwraig yng ngholeg Cyncoed.

Gofalodd Mrs Mair Emrys Evans fod yna deisen wedi ei haddurno'n bwrpasol i'w thorri a'i rhannu.

Fel arwydd o barch ac anwyldeb yr aelodau tuag at y Parch Ddr a Mrs Emlyn Jenkins, cyflwynodd y Dr Emrys Evans, Ysgrifennydd yr eglwys, fowlen rosod a wydr crisial iddynt. Cyflwynodd Mrs Pegi Davies, un o'r aelodau hynaf a ffyddlonaf, dusw o flodau i Mrs Jenkins.

Darllenwyd englyn cyfarch o waith y Parch John Gwilym Jones, Bangor, Llywydd Undeb yr Annibynwyr ac Archdderwydd Cymru:

Emlyn a Peg

Ar longau y ddau ddiwyd - goludoedd
a gludwyd o'r gwynfyd
Yn y Bae, brynhawn bywyd,
Yn awr gant yn aur i gyd

Wrth ddiolch, rhannodd y ddau nifer o'u hatgofion difyr am yr un mlynedd ar ddeg ar hugain a dreuliasant yn Ebeneser.

Cafwyd dwy oedfa fendithiol a phregethu Dr Emlyn Jenkins yn ei ddull unigryw mor rymus a chadarn ag erioed. Braint oedd cael gwrando ar yr Efengyl o enau un o hoelion wyth pulpud Cymru.

Boed i'r ddau gael iechyd i fwynhau prynhawnddydd yn Haulfryn, Ffordd Gwbert, Aberteifi.

# O odre'r Preseli i Gadernid Gwynedd

Cyn hir fe fydd y Parchedig Saunders Davies, ficer Eglwys Dewi Sant, yn ymadael â Chaerdydd. Penodwyd e'n Archddiacon Meirionnydd a Rheithor Cricieth ac yn y dre honno y bydd e a'i deulu'n ymgartrefu. Bydd ymadawiad Saunders a Cynthia'n golled fawr, nid yn unig i Ddewi Sant ond hefyd i Gaerdydd ac Esgobaeth Llandaf oherwydd ers iddyn nhw ddod yma saith mlynedd yn ôl, fe ymdaflon eu hunain i bob agwedd o fywyd yn y brifddinas. Bu'r ddau'n ddarlithwyr yn Adran Efrydiau Allanol y Coleg a buont yn flaenllaw yng ngweithgareddau'r Ganolfan Addysg Gristnogol yn Windsor Place, tra bu Saunders yn weithgar gyda'r Cyngor Eglwysi Cymraeg a chydag Eglwysi Cyfamodol De Morgannwg.

Mab i fferm yng Nghwm Gwaun yw Saunders ac ar ol gyrfa ddisglair yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor (lle enillodd wobr Syr John Morris Jones) a Choleg Selwyn, Caergrawnt treuliodd gyfnod yng Ngholeg Sant Mihangel, Llandaf a Phrifysgol Bonn cyn ei ordeinio wythnos union cyn priodi Cynthia.

Bu'n gurad yng Nghaergybi, yn gaplan yng Nghadeirlan Bangor, yn Rheithor Llanllyfni a Chanon yn yr Eglwys Gadeiriol, Bangor cyn dod nol i'r de fel Ficer Gorseinon. Bu yno am wyth mlynedd cyn dod i Ddewi Sant ym 1986. Ac yn awr, nôl i'r gogledd (ar fenthyg, gobeithio) lle bydd deimensiwn newydd i'w weinidogaeth. Yn ogystal â gofalu am ei blwyf ei hun, bydd hefyd yn gyfrifol am 33 o offeiriaid a'u teuluoedd mewn 27 o blwyfi'n ymestyn o Aberdaron i Lanidloes, o Feddgelert i Fachynlleth. Yn ôl Saunders, 'Bugeilio'r bugeiliaid'.

Fe gaiff bob cefnogaeth gan Cynthia - y ferch hynaws a dawnus a godwyd ym Mynachlogddu - dros fynyddoedd Preselau o Gwm Gwaun - a aeth o Ysgol Ramadeg Aberteifi i ennill gradd dosbarth cyntaf yn Gymraeg yn Aberystwyth. Ar ben ei phrif gyfrifoldeb o ofalu am ei theulu, Saunders, Sion ac Angharad, fe ddaeth o hyd i amser i gyfieithu nifer o lyfrau plant, oedolion a barddoniaeth i Gymraeg a Saesneg yn ogystal â dysgu Cymraeg fel ail iaith yng Ngholeg Sant Mihangel.

Er i ni dristáu o'u colli, dymunwn fendith Duw ar weinidogaeth Saunders yn esgobaeth Bangor a rhwydd hynt i'r teulu yn y cartref newydd.

# DYSGU CYMRAEG

## dan ofal Mair ac Alun Treharne

JIG-SO: Rhoi darnau'r iaith yn eu lle

Nosweithiau hir yr haf
Efallai y byddwch chi'n darllen y rhifyn hwn o'r Dinesydd gyda'r nos, yn yr ardd ar noson braf - ar un o nosweithiau hir mis Gorffennaf. 'Nos', 'noson', 'noswaith' - pryd a sut mae defnyddio pob un o'r rhain?

Nos, nosau (= night time/darkness)

| | |
|---|---|
| yn ystod y nos | during the night |
| dros nos | overnight |
| gyda'r nos | in the evening |
| (e.e. Pryd mae'r cyfarfod - | amser cinio neu gyda'r nos? |
| When is the meeting - | lunchtime or in the evening?) |

| | |
|---|---|
| min nos | 'the edge of the night'/evening twilight |
| Nos da! | Good night! |
| Nos Galan | New Years Eve |
| Nos Galan Gaeaf | Hallowe'en |
| Nos Ystwyll | Twelfth Night |

Noson ( = evening, used in the singular form, often when 'night' is used in English for 'evening')

| | |
|---|---|
| noson allan | an evening/night out |
| noson wych! | a great evening/night! |
| noson a hanner! | quite an evening/night! |
| (e.e. Gawsoch chi noson dda? | Did you have a good evening? |
| Do, noson a hanner! | Yes, quite an evening!) |
| noson waith | a weekday evening |

Noswaith, nosweithiau ( = evening/evenings, used to greet people and where the plural form 'evenings' is required)

| | |
|---|---|
| Noswaith dda! | Good evening! |
| nosweithiau hir yr haf | long summer evenings |

### Gwaith tu fas!

Mae'n hawdd esgeuluso (neglect) gwaith y tu fa's i'r tŷ yn ystod y gaeaf, ond does dim esgus pan ddaw nosweithiau hir y haf. Mae eisiau gwneud llawer o bethau y tu fa's i'n tŷ ni. Beth am ddechrau gyda'r rhain:

Mae eisiau peintio'r gwaith coed a llenwi'r darnau sydd wedi pydru. Dyna benwythnos o waith i ddechrau! Wedyn mae eisiau cyweirio drws ochr y garej achos bod llygod ffrengig yn gallu mynd drwy'r twll yn y pren a rhwygo'r bagiau bin yn y garej. Mae'r ardd gefn mewn cyflwr eitha da eleni ond mae eisiau trin y borderi - maen nhw wedi dechrau tyfu'n wyllt yn barod. Mae eisiau codi lein ddillad rywle yn yr ardd hefyd gan fod y peiriant sychu dillad wedi torri. Trip arall i 'Homebase'. Wrth gwrs, mae eisiau mwynhau bod ma's yn yr ardd hefyd!

## CYD: De Morgannwg

CYD: Y mudiad sy'n adfer yr iaith trwy ddod â Chymry Cymraeg a dysgwyr ynghyd yn y Gymraeg. Beth am fod yn rhan o'r gwaith pwysig hwn?

CYD: The society that promotes the Welsh language by bringing Welsh speakers and learners together through the Welsh language.

Am fanylion pellach cysylltwch a:

**Peter Bradley**

**117, Oakridge**

**Draenen Pen-Graig (Thornhill)**

**Caerdydd CF4 9BY**

# DARLUNIAU BYW

Ar flaen ei dafod = ar fin cofio/on the tip of his tongue

'Welaist ti rownd derfynol Mastermind neithiwr te?'

'Do. Roedd hi'n gyffrous (exciting), on'd oedd hi?'

Oedd wir. Druan o'r boi 'na o Lantrisant. Roedd yr ateb i'r cwestiwn ar flaen ei dafod pan aeth y gloch.'



Ar flaen ei dafod

*The above cartoon, is taken from Darluniau Byw - a collection of Welsh idioms brought to life by Cardiff artist/illustrator Cen Williams. The book, published by Gwasg Gomer at £2.95, contains explanations of nearly 200 Welsh idioms together with a series of graded exercises based on them.*

Daw'r cartŵn uchod o Darluniau Byw - casgliad o idiomau Cymraeg gyda lluniau gan yr arlunydd/dylunydd o Gaerdydd, Cen Williams. Mae'r llyfr a gyhoeddir gan Wasg Gomer am £2.95, yn cynnwys bron 200 idiom Gymraeg ynghyd â chyfres o ymarferion wedi'u graddoli yn seiliedig arnynt.

## 'WHY CHOOSE WELSH'

Cafodd taflen liwgar ei chyhoeddi gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru, gyda nawdd gan Drydan De Cymru, yn llawn gwybodaeth am y Gymraeg a gwerth dysgu Cymraeg. Mae CBAC yn awyddus bod y daflen yn cael ei dosbarthu mor eang ag y bo modd. Os ydych chi am gael copiau i roi i gyfeillion neu gydweithwyr, neu i'w gadael yn eich meddygfa leol er enghraifft, mae croeso i chi gysylltu â Helen Prosser neu Sara Evans ar Gaerdydd 555446.



# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU ABERTAWE A LLIW 1993

Dyma fuddugwyr De Morgannwg yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau calonnog i'r holl enillwyr a'r ymgeiswyr a hefyd i bawb a fu'n eu cynorthwyo a'u cefnogi.

**Medal Lenyddiaeth:** Owain Rhys, Caerdydd. (3); **Addysg Gorfforol Unigol dan 12 oed**: Becky Morgan,Ysgol Sant Joseff (2); **Unawd 8 - 10 oed:** Erin Richards, Ysgol Gymraeg Penarth (3); **Parti Dawnsio Gwerin Blynyddoedd 5 a 6:** Ysgol Gynradd Marlborough.(2); **Parti Deulais Blwyddyn 6 ac Iau:** Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd,(3) **Can Actol Blwyddyn 6 ac Iau i Adrannau/Ysgolion:** Ysgol Gynradd Pencae,(2); **Unawd Bechgyn 12 - 15 oed:** Trystan Francis, Ysgol Gyfun Glantaf (3)

**Tim Addysg Gorfforol i Fechgyn Oedran Blwyddyn 7, 8 a 9:** Ysgol Gyfun Glantaf (1); **Unawd Cerdd Dant 15 - 19 oed:** Sara Evans, Ysgol Gyfun Glantaf (2); **Unawd Telyn 15 - 19 oed:** Siân Pivotte, Ysgol Gyfun Glantaf (3); **Grŵp Llefaru Blwyddyn 10, 11, 12, ac 13 i Ddysgwyr:** Coleg Dewi Sant,(3); **Côr Bechgyn T.B. Blwyddyn 13 ac Iau:** Ysgol Gyfun Glantaf (3); **Cor Merched S.A. Blwyddyn 10, 11, 12 ac 13:** Ysgol Gyfun Glantaf (3); **Ymgom 15 - 19 oed:** Ysgol Gyfun Glantaf (3) **Cor S.S.A. Blwyddyn 10, 11, 12 ac 13:** Ysgol Gyfun Glantaf (3); **Siarad Cyhoeddus Unigol dan 19 oed:** Sara Evans, Ysgol Gyfun Glantaf (2); **Tim Siarad Cyhoeddus Blwyddyn 10, 11, 12 ac 13:** Ysgol Gyfun Glantaf (2); **Addysg Gorfforol Unigol i Ferched 15 - 19 oed:** Emma Ivins, Ysgol Uwchradd Corpus Christi,(3); **Parau Addysg Gorfforol dan 19 oed:** Lynette a Emma, Ysgol Uwchradd Corpus Christi,(3); **Deuawd Piano dan 19 oed:** Lisa a Rhian, Ysgol Gyfun Glantaf (2); **Tlws Cerddoriaeth:** Ceri Torjussen, Caerdydd (2); **Band Pres/Cerddorfa/Band Chwythbrennau dan 25 oed:** Ysgol Gyfun Glantaf (3);



Mae Rhodri Jones, Ysgol y Wern a Rhiwbeina, newydd ddychwelyd o Sweden lle y bu'n chwarae am wythnos gyda thim ieuenctid Clwb Pêl-droed Norwich City. Mae'n gobeithio cael trip arall dros y mor y mis yma, i Denmarc y tro hwn - eto gyda Norwich. Ef oedd yr ieuengaf ymhlith y bechgyn a ddeuai o Gymru a Lloegr. Roedd dau arall o Gaerdydd gydag ef, prawf fod pêl-droed yn fyw iawn yn y ddinas.

## Cwis Llyfrau Ysgolion Cynradd - Ysgol Bro Eirwg

Dydd Iau, 17 Mehefin, bu pedwar plentyn o Ysgol Bro Eirwg yn cynrychioli De Morgannwg yn rownd derfynol y Cwis Llyfrau yn Aberystwyth. Bu Dafydd Wyn Ellis, Angharad Shore, Nia Williams ac Elen Mair Evans wrthi'n ddygn yn trafod dau lyfr ac yn cyflwyno un arall ar lwyfan. Aeth y trafod a'r cyflwyno'n dda ac ar ddiwedd y dydd dyfarnwyd yr ail wobr iddynt. Ysgol Tal-y-bont, Aberystwth a orfu ond roedd y frwydr yn un galed! Braf oedd cael mynd â bws o blant i gefnogi a chael cwrdd ag Emily Huws, Meinir Pierce Jones a Mair Wyn Hughes, rhai o awduron y llyfrau a astudiwyd



## Blas ar y Brifwyl - Glantaf

Dechreuwyd ar y paratoadau âr gyfer Eisteddfod Yr Urdd fisoedd yn ol wrth gystadlu yn y cystadlaethau Gwaith Cartref, a phenderfynu pa gystadlaethau i fentro arnynt yn yr Eisteddfod Sir lwyddiannus iawn, y canlyniad oedd bod yr ysgol yn cystadlu mewn deugain o gystadlaethau yng Ngorseinon. Roedd 168 o ddisgyblion ynghlwm â'r holl gystadlu, a nifer ahonynt yn cystadlu ar fwy nag un diwrnod

Cafwyd peth llwyddiant cyn yr Eisteddfod ei hun. Cynhaliwyd y Rhagbrofion Tim Siarad Cyhoeddus fis cyn yr Eisteddfod, a bu tim Ysgol Glantaf yn llwyddianus wrth drafod y pwnc 'Mae pethau pwysicach gennym ni i feddwl amdanynt ac eithrio AIDS'. Ysgolion Glantaf, Cwm Rhymni ac Ystalyfera oedd y tair ysgol a aeth ymlaen i'r rownd derfynol a oedd yn cael ei chynnal yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Aelodau tim Glantaf oedd Iwan Walters fel cadeirydd a Gareth Williams a Sara Evans fel siaradwyr.

Yn y cystadlaethau Gwaith Cartref daeth Noni Jones o Flwyddyn 8 yn drydydd mewn llunio sgript dramatig 12 - 15 oed a daeth Bethan Davies a Hannah Evans yn ail yn y gystadleuaeth 15 - 19 oed. Y prif lwyddiant oedd cael cydradd gyntaf yng nghystadleuaeth *Golwg* - sef cystadleuaeth llunio cylchgrawn gyda sylw manwl i'r celfyddydau a darlledu; enillwyd Tlws Coffa Roy Stephens am chwe mis fel gwobr a hyn am yr ail dro mewn tair blynedd. Ysgrifenwyr y cylchgrawn oedd y criw sydd yn gwneud Cymraeg Safon Uwch ym Mlwyddyn 12 eleni - criw o 17 a weithiodd yn ddiwyd a brwdfrydig ar y cylchgrawn

Yn ogystal â chael y profiad a'r anrhydedd o ymddangos ar y llwyfan a chyrraedd y brig. Mewn rhai o'r cystadlaethau gwaith cartref cafwyd wythnos hynod o lwyddiannus a llewyrchus felly ac roedd y tywydd yn fendigedig trwy'r cyfnod y buom ni yno. O bosib, dyma un o eisteddfodau'r Urdd fwyaf llwyddiannus crioed i'r ysgol o ran cystadlu.

### Gweithgarwch Llyfrau Glantaf

Cafodd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 8 Glantaf daith i Aberystwyth yn ddiweddar i rownd derfynol gweithgarwch llyfrau'r Cyngor Llyfrau. Daeth yr ysgol yn bedwerydd gan ennill gwerth £1000 o lyfrau i lyfrgell yr ysgol.

Yn y llun gwelir y cystadleuwyr brwdfrydig yn y rhes flaen: Marc Thomas, Llyr Dunsford, Rhys Morgan, Owen Prowel, Tomos Guy, Leah Millett, ac yn y cefn, Ruth Salisbury, Gwenfair Michael, Bethan Thomas, Alice Watkins, Carys Lewis a Dafydd Phillips. Mrs Eleri Jones fu yn eu hyfforddi.

# Canwr y Byd
## 1993 - Alun Guy

Bu'r gwylio a'r gwrando eleni rywsut yn wahanol i'r blynyddoedd cynt - yn enwedig i Gymry Cymraeg y brifddinas a'i chyffiniau.

Nid oes gan athro cerdd yr hawl, na'r hyfdra hyd yn oed, i feddwl y gallai un o'i ddisgyblion gynrychioli ei wlad mewn cystadleuaeth fyd-eang - ond dyna a ddigwyddodd ar nos Iau, Mehefin 17 wrth i Jeremy Williams gamu ar lwyfan Neuadd Dewi Sant.

Roedd yn haws sicrhau tocyn i gêmau Rygbi Cwpan y byd na chael mynediad i ornest Canwr y Byd! I'r sawl a fu'n bresennol yn y neuadd cawsant fodd i fyw - wythnos o ganu gwefreiddiol ar adegau, gan 25 o gantorion addawol 'yfory'.

Ychwanegwyd at densiwn a thymheredd bob noson gan yr holl gamerâu teledu a'r milltiroedd o wifrau cysylltu. Doedd dim dianc i'r canwr druan - yn union fel y fowlen bysgod ar bosteri'r BBC - pawb yn gwylio pob ystum ac anadl.

Roedd y gynulleidfa feunosol yn hynod o ddeallus a gwerthfawrogol: mawr fu'r drafodaeth egwyl ymhlith y ddwy fil o feirniaid answyddogol. Rhoddwyd croeso twymgalon i bob unawdydd yn ei dro, ac roedd cyfathrebu rhwng y llwyfan a'r llawr yn gynnes a brwdfrydig.

Un o'r ffactorau mwyaf cadarnhaol oedd clywed cadeirydd y panel beirniaid, Matthew Epstein, yn cyhoeddi'r canlyniadau yn y Gymraeg - a hynny o flaen y Saesneg bob tro!

Roedd y weithred hon yn brawf o'r ewyllys da na fedr unrhyw ddeddf iaith ei ddisodli. Er na chafodd Jeremy le yn y rownd derfynol, roeddem oll yn Ysgol Glantaf yn hynod falch ohono - fel ei gyn-athrawon yn Ysgol Gymraeg Penarth. Canodd gyda sglein ac argyhoeddiad gan arddangos sgiliau a thechneg lleisiol arbennig iawn. Rhaid oedd f'atgoffa fy hun mai dyma'r un Jeremy a ganai 'Llansteffan' ac 'O na byddai'n Haf o hyd' yn Eisteddfodau Glantaf ryw ddeng mlynedd yn ôl. Ie, hwn oedd yr un 'JEZ' a rannai ddesg yn y gwersi cerdd gydag un arall o gantorion Ysgol Penarth, Dyfed Evans. A hwn oedd yr un JEZ a ganai ddeuawdau gyda'i gyd-ddisgybl Tony Lloyd, enillydd y Rhuban Glas yn Aberystwyth y llynedd.

Cipiwyd y goron gan Frenhines y gân o Ddenmarc Inger-dam Jensen a'r wobr Lieder gan y cawr o Seland Newydd Paul Whelan. Wrth eu llongyfarch rydym hefyd yn diolch i BBC Cymru am y weledigaeth a gafodd ddeng mlynedd yn ôl.

# CÔR Y BYD 1993

Am wn i mai dyma digwyddiad mwyaf arbennig yn ein calendr cerddorol cenedlaethol. Mae'n gwbl unigryw ac mae'n anodd credu y gallai neb arall ei gynnal ond ninnau'r Cymry. Pan ystyriwch chi'r gymysgedd sy'n cael ei dwyn ynghyd mae'r peth yn edrych yn hollol ddwl. Ond fel achlysur mae'r peth yn gweithio.

Roedd bod yn y Stadiwm Genedlaethol ymhlith y miloedd ar filoedd yn brofiad cyffrous. Ar waetha'r tywydd angharedig doedd hynny'n mennu dim ar frwdfrydedd y dorf i gael noson o fwynhad a phleser. Dyma sy'n gwneud perfformiad byw yn ddigwyddiadd byw.

O'n blaen roedd côr meibion mwyaf y byd, oll yn eu crysau gwynion wrth y miloedd. Roedden nhw a ninnau wedi bod wrthi am dipyn yn codi hwyl cyn i'r cyngerdd go iawn ddigwydd. Dan gyfarwyddyd Dewi Griffiths codwyd yr hwyl a gyrhaeddodd ei uchafbwynt gyda Max Boyce a'i 'Hymns and Arias'. Erbyn iddo orffen roedd y disgwyl yn fawr am raglen gofiadwy. A dyna a gafwyd. Mae enw Owain Arwel Hughes ynghlwm â'r digwyddiad hwn o'r dechrau'n deg. Fel cyfarwyddwr cerdd ac arweinydd mae ei gyfrifoldeb yn fawr. Eleni, roedd ganddo o'i flaen y Gerddorfa Simffoni Frenhinol a phan gododd Owain ei faton i arwain côr a cherddorfa yn 'Llanfair' roedd y tawelwch yn llethol. O'r foment hon ymlaen roeddem i gyd wedi'n sugno i ysbryd yr achlysur.

Daeth yr hen ffefrynnau corau meibion yn eu tro - yr emyn-donau bythwyrdd megis 'Llanfair', 'Gwahoddiad','Llef', 'Arwelfa', 'Tydi a Roddaist', caneuon y dyn du, darnau o operâu megis Corws yr Eingion o Il Trovatore a Chorws y Milwyr o Ffawst yn ogystal â Harlech, Kalinka, telyneg Eli Jenkins ar Troyte a rhan olaf Nidaros. Môr, yn wir, cefnfor o sain gorchestol a'r côr yn cydsymud, yn cydgordio'n rhyfeddol ac yn arbennig o effeithiol yn y darnau digyfeiliant.

Fe'n swynwyd gan y delynores dalentog Catrin Finch a'r trebl Oliver Sammons a chan y tenor Wynford Evans. Roedd y detholiad o ganeuon Ivor Novello gan Gantorion Richard Williams yn hyfryd ben ac yn briodol.

Roedd datganiad y baswr gwych o Georgia, Paata Burchuladze, yn wefreiddiol o gyfoethog. Dim ond un gair sy'n weddus i berfformiad Shirley Bassey - trydanol. Roedd ei grym yn ysgytwol a'i chyfathrebu â'r dorf yn ddim llai na hudol. Uchafbwynt ysgubol i noson ysgubol.

Wynne Lloyd.

# MENNA'N MANYLU AM Y TRO OLA

Fydda i ddim yn 'ddinesydd' o hyn ymlaen! Ar ôl byw yn y brifddinas am ddeg mlynedd a sgwennu i'r papur am bedair, dyma fi erbyn hyn yn cau pen y mwdwl ac yn ffarwelio efo chi wrth ymfudo i Ganolfan newydd Radio Cymru yn Aberystwyth.

Byddaf yn colli llawer o bethe wrth gwrs, ond braf fydd hel atgofion am yr uchafbwyntie.

Dechreuais ar gyflog llai na £3,000 ond bûm yn lwcus iawn o Glwb Ifor Bach i weithio tu ôl i'r bar iddynt. Bûm yn fwy lwcus byth o Ceri, fy chwaer, i gael lle rhad i aros a chael bwyd wedi'i wneud a dillad wedi'u golchi i mi! Roeddwn yn lwcus o ffrindie a chyd-weithwyr i setlo i lawr yma - o gwmni drama'r Fuwch Goch, corau'r Ganolfan, yr Aelwyd a Merched y Garth i dreulio fy amser hamdden.

Roedd yn hyfryd bod yma ar benwythnose rygbi a rhoi lloches i gefnogwyr brwd o'r de a'r gogledd a bu tair eisteddfod yn y cyffinie i ddenu teulu a ffrindie.

Mae pobol Treganna wedi bod yn glên a chyfeillgar ond rhai'n fwy na'i gilydd angen eu haddysgu am yr iaith Gymraeg! Mae'r Sherman, y Chapter a Chlwb y Bont wedi bod yn ganolfanne difyr am ddiwylliant, a meysydd awyr Caerdydd a Llundain yn gyfleus iawn i bicio o'ma ar wylie!

Wrth chwilio am lefydd newydd i yfed a bwyta, mi fydda i'n colli'r Halfway a'r Cameo, yr Happy Gathering a'r Eurasian, ond rhaid peidio sentimentaleiddio'n ormodol! Braf fydd symud i fwrlwm y canolbarth, i dref ifanc y myfyrwyr, i ganol y Cardis Cymreig ac at ffermwyr cefn gwlad Ceredigion - horni! Braf hefyd fydd gallu picio adre at mam i gael cinio dydd Sul.

Diolch am ddarllen y golofn yma dros y cyfnod a phob lwc i ddyfodol y papur ac i bob 'dinesydd' arall.

(Byddwn yn dy golli yma yng Nghaerdydd Menna - paid â bod yn ddiarth - diolch am dy gyfraniadau cyson a difyr ac am dy rodd i'r *Dinesydd* wrth ymadael-Gol)


**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

# IAITH SWYNOL NANTGARW

Yn ei gyfrol **Cymeriadau Cefn Gwlad** (a gyhoeddwyd gan Lyfrau'r Castell, Caerdydd, yn 1948), y mae Ap Nathan (tad Miss Beti Rhys) yn disgrifio nifer o hen gymeriadau Cwm Rhondda ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Ceir pennod yn y llyfr am ddyn o'r enw Edward Edwards, neu 'Etwart Etwart' fel y'i gelwid ar lafar. Un o bentref Nantgarw yng ngwaelod Cwm Taf oedd Etwart Etwart, a dyma a ddywed Ap Nathan amdano: 'fel y bobl a hanai o'r cylch parablai'r Wenhwyseg gyda swyn neilltuol. Pert pob brawddeg ar ei wefus, a lliwgar ei holl ymadroddion.'

Ym mis Hydref eleni, cyhoeddir astudiaeth safonol o iaith Nantgarw. Fe'i paratowyd gan un o frodorion y pentref, sef Dr Ceinwen H. Thomas, sydd bellach yn byw yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Mae'r gwaith yn ymestyn i bron 1,300 tudalen, ac yn cynnwys disgrifiad trylwyr o'r dafodiaith a rhestr gynhwysfawr o'i geirfa. Dyma, felly, ddisgrifiad manwl o'r Gymraeg fel y'i siaredid, hyd yn ddiweddar, o fewn tafliad carreg i Gaerdydd.

Cyhoeddir **Tafodiaith Nantgarw** mewn dwy gyfrol, a'r pris am y ddwy yw £65 - cryn fargen am waith o'r fath! Fel y pwysleisia'r cyhoeddwyr, er y bydd ambell adran (megis y casgliad o ddywediadau) ag apêl ehangach, llyfr technegol yw hwn 'ar gyfer y rhai sy'n ymddiddori mewn iaith o ddifrif'. O'r herwydd, llyfr ar gyfer tanysgrifwyr yn unig ydyw ac ni fydd ar werth yn y siopau. Gellir sicrhau copïau trwy anfon tanysgrifiadau yn uniongyrchol at y cyhoeddwyr - Gwasg Prifysgol Cymru, 6 Gwennyth St., Cathays, Caerdydd CF2 4YD - a hynny erbyn **10 Awst fan bellaf.**

Tan ei hymddeoliad yr oedd Dr Ceinwen Thomas yn Gyfarwyddwr yr Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg yn Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Yn ddiweddar cyhoeddwyd y seithfed gyfrol yn y gyfres **Papurau Gwaith Ieithyddol Cymraeg Caerdydd**, a hwnnw'n rhifyn arbennig wedi'i gyflwyno i Dr Thomas. Ei bris yw £3 a gellir prynu copïau trwy anfon at Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd, Caerdydd CF1 3XW (sieciau'n daladwy i 'Bapurau Gwaith Caerdydd').


**Lorraine Evans**

GWASANAETH TEIPIO CYMRAEG/SAESNEG

Prosesydd geiriau, peiriant clywdeipio, ffacs

Yn y cartref neu yn y swyddfa

Profiad ysgrifenyddol helaeth, clywdeipio, teipio copi

Unrhyw beth yn bosibl

Ffoniwch Pen-y-bont ar Ogwr (0656) 766004


# O FYD Y CAMPAU

## dan ofal Thomas Davies

### Y BÊL HIRGRON: YMWELIAD AG AFFRIG

Bu llawer yn dilorni'r ymweliad, gan ddweud na fyddai safon y gwrthwynebwyr yn ddigon da i baratoi'r wlad ar gyfer y tymor nesaf ac fel rhan o'r paratoadau hefyd ar gyfer ymweliad arall â'r Cyfandir - yn 1995 a Chwpan y Byd. Ond ni chredaf y byddai'r dilornwyr yn dal at eu gwrthwynebiad wedi clywed canlyniad gornest olaf y daith - hwnnw'n erbyn Barbariaid De Affrig ym Mhrifddinas Namibia, Windhoek brynhawn Mercher, 9 Mehefin. Yr wyf i'n ddiolchgar dros ben i Lyn Davies (Gohebydd BBC Cymru) am y wybodaeth werthfawr a gefais er mwyn llunio'r ysgrif hon.

Ni ddisgwyliwyd i Simbabwe guro'r Cymry, er i bedwar o'n chwaraewyr rhyngwladol orfod tynnu'n ôl, a rhaid cofio na fu pedwar arall ar gael oherwydd iddynt gael gwahoddiad i ymweld â Seland Newydd gyda charfan y Pedair Gwlad. Fe ddatganodd y Rheolwr, Robert Norster, a'r ddau Hyfforddwr, Alan Davies a Gareth Jenkins, yn eglur mai arbrofi fyddai prif amcan y daith - chwarae rygbi pymtheg gan roi digon o gyfle i bawb ddangos ei ddawn gynhenid. Dull Llanelli fyddai hynny, a dyna a dderbyniwyd gan y chwaraewyr oll - Gareth Jenkins yn hyfforddi'r blaenwyr i sicrhau y cedwid y bêl yn fyw, a'r blaenwyr ar eu traed cymaint â phosibl. Fe brofodd Gareth Llywelyn fod y gapteiniaeth yn ddiogel yn ei ddwylo, a'r blaenwyr a osododd ddull y chwarae o'r dechrau, ond ni chyrhaeddodd yr olwyr y fath safon cyn yr ornest olaf un. 'Roedd Phil Davies wrth ei fodd yn chwarae'n glo gyda'r capten, ac fe brofodd y prop, John Davies, ei fod wedi chwarae rygbi'r degaid hwn cystal â neb. Disgleiriai Andrew Lamerton, y bachwr, ac 'roedd sgrymio cadarn Meic Griffiths yn sicrhau y câi blaenwyr rhydd gyfle i ddechrau ymosod o'r agwedd honno. Emyr Lewis oedd canolbwynt y dacteg ymosod, ac 'roedd ei daclo'n rhyfeddol; er mai chwech yn unig o'r pymtheg blaenwr a enwyd, chwaraeai'r gweddill â'r un ymroddiad yn union, ac fe wnaeth yr olwyr yn fawr o'u meddiant rhagorol, er bod y trafod yn esgeulus o bryd i'w gilydd cyn yr ornest olaf pan welwyd rygbi o'r safon uchaf gan bob un o'r pymtheg. Cyfrannai Rupert Moon yn fawr iawn trwy'r daith, a dangosai Neil Boobyer faint yn union o ddawn sy ganddo. 'Roedd trosi Neil Jenkins yn rhyfeddol, âi ei giciau rhwng y pyst o bob man, ac o'r herwydd rhaid iddo chwarae dros y wlad y tymor nesaf - ond ymha safle, tybed? Disgleiriai Ian Jones hefyd, er gwaethaf anaf, ac fe sgoriodd un cais arbennig yn erbyn y Barbariaid. Yn yr ornest honno syfrdanwyd pawb a'i gwelodd, gwyched oedd safon y rygbi - wyth cais i ddau yn y canlyniad o 17 - 56, a phump o chwaraewyr carfan genedlaethol De Affrig yn wynebu'r Cymry. Ai yn ystod ymweliad a Simbabwe a Namibia ym Mai a Mehefin 1993 y dechreuwyd pennod ddisglair arall yn hanes rygbi'r genedl?

## CRICED: Clwb Rygbi Cymraeg Caerdydd

Dechreuwyd Clwb Criced y Clwb Rygbi yn y Brifddinas yn y 70au, ac fe ymunwyd â Chynghrair Canol Wythnos Caerdydd yn 1987. Ym Mhumed Adran y Cynghrair yr oedd y Clwb y tymor cyntaf hwnnw, ond erbyn 1991 'roedd wedi ennill ei le yn yr Adran Gyntaf. Capten y Clwb eleni yw Gareth Mainwaring, yr Is-gapten yw Huw Chris Davies, a'r dyn a baratodd yr adroddiad hwn yw'r Ysgrifennydd, Gareth James.

Mae tri o aelodau'r Clwb yn chwarae i glybiau o safon uwch, sef Martin Powell i Sain Ffagan, Owain Llywelyn i Bontypridd a David Davies i Radur. Martin, gyda llaw, sy'n dal record batio'r clwb yn y cynghrair, 80 heb fod allan. Y bowlwyr gorau ydy' Owain Llywelyn a David Davies. Bwriadu canolbwyntio ar y Cwpan yr oedd y clwb pan gawsom yr adroddiad hwn, ac 'roedd hi'n debyg fod y gobaith o'i ennill yn lled gryf. Mae safon dda o griced yn y Cynghrair gyda'r clybiau o dras Ynysoedd Môr y Caribi a Phacistan ar y brig.

Lleiniau gwael y mae'n rhaid i'r clwb chwarae arnynt, sef y rheiny yn Llandaf a Phontcanna; nid yw Cyngor y Ddinas yn fodlon gwario arian ar y lleiniau, ond darperir dwy lain wneud, a'r ddwy hyn ydy'r mwyaf poblogaidd gan eu bod yn llai peryglus i'r batwyr.

Nid ennill sy'n holl bwysig, meddai Gareth James, eithr y cymdeithasu sy'n cyd-fynd â'r chwarae. Ond mi gasglaf fod y cymdeithasu'n felysach wedi buddugoliaeth.



**SWYDDOG DATBLYGU DE MORGANNWG**
**WARDEN CANOLFAN CAERDYDD**

(Swydd ar gytundeb blwyddyn yn unig)

Gellir ystyried y swyddi yma naill ai fel swydd llawn amser i un person neu dwy swydd rhan amser i ddau berson. Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr addas ar gyfer y swydd/i uchod i drefnu gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y De Ddwyrain. Gellir derbyn manylion pellach a ffurflen gais ar gyfer y swyddi uchod oddi wrth:-

Y Cyfarwyddwr
Swyddfa'r Urdd
Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth, Dyfed. SY23 1EN
Ffon: (0970) 623744.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn Rhif 131




**AR DRAWS**

1. Y bachgen di-gariad a gerddai yn unig. (4,5,1,3)
8. Dydd y crempog. (4)
9. Craidd yr olwyn (3)
10. Ceir yn barhaus ei gyfarwyddyd i ba idiom sy'n addas. (6)
11. Dysgaf Noel y gall fod yn anwadal (10)
13. Pwdin Dydd Sul! (4)
14. Ceffyl o allu yn strancio, ac eto'n fedrus. (6)
16. Wy bach sur yn ddigon i greu dychryn. (8)
19. Ann yn cael anadliad arall yn yr ysgol ym Morgannwg Canol. (8)
22. Oed Dai yn peri iddo gymryd sbel. (6)
25. Rhan o'r agenda yn creu rhaniad yn y pwyllgor? (4)
26. Hudol, ac fel penaethiaid y trefi, yn llesol. (10)
27. Un anghyffredin yn ddrwgdybus ac yn gosod telerau. (6)
28. Mae hon yn dda am dawelu'r un bychan sy'n crio. (3)
29. '- - - - iawn wyf fi i ddysgu' (Emyn, Elfed) (4)
30. Ychydig iawn o hyder a welir pan y bo llygad noeth wrthi. (7,1,5)

**I LAWR**

1. Dau blwyf o'r un enw, y naill yn Sir Gaernarfon a'r llall yn Sir Benfro. (7)
2. Mae hyn yn rhoi stamp arno, er nid llythyr mohono. (7)
3. Corff bach dethol sy'n cymryd llw brysiog. (9)
4. Creadur o Benarth a ddienyddiwyd. (3)
5. Hen gybydd. (5)
6. Gweithdy'r gwyddonydd, lle mae'n medru gadael y byd ar ôl. (7)
7. Y rhai annwyl sy'n gwarchod y plant, er mawr ryddhad i'w mamau. (7)
12. Y wlad tu allan i Aberhonddu. (7)
15. Cyrten i guddio cynnyrch ein hawduron. (3)
17. Bai noeth o'i ran yw'r achos iddo golli pob hyder. (9)
18. 'Rhaid eich geni - - - drachefn.' Llinell o gynghanedd sain naturiol o Efengyl Ioan, III. Collwyd y gynghanedd yn y cyfieithiad newydd. (3)
20. Dal ar gyfle grym a lle i gymeradwyo. (7)
21. Yn cymryd arno mai felly mae. (7)
23. Y mae'n codi o Ddydd Dyrchafael diddiwedd. (7)
24. O Ddolanog aeth ymlaen i Bontrobert i ddangos cymhelliad. (7)
26. Gwelwyd hon yn borffor uwch Trawsfynydd. (5)
28. Rhan o'r atyniad yw fod y gystadleuaeth rhyngddynt yn glòs iawn. (3)

## DATRYSIAD
## Y CROESAIR - Ap Lewsyn Rhif 130



### CYSTADLEUAETH RHIF 130

*Derbyniwyd saith ymgais ar hugain, pob un yn gymeradwy iawn, ond rhyw fan-mefl ar bump ohonynt. Or pentwr dau ar hugain hollol gywir, yr enw a ddaeth allan oedd Sylvia Evans, 21 Gelligaer Gardens, Caerdydd. Fe gaiff y tocyn llyfr yn fuan.*

### Cystadleuaeth Rhif 131

**Tocyn Llyfr Cymraeg am £5 eto. Pob datrysiad i gyrraedd erbyn 26 Gorffennaf. Y cyfeiriad yw Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair, os gwelwch yn dda.**

---

# SÊR Y DINESYDD GORFFENAF 1993

## GAN EIRY PALFREY



**ARIES:**

Mi fydd Gorffennaf yn fis hynod o lwyddiannus i chi ym mhob agwedd o'ch bywyd. Falle bydd amgylchiadau'n eich gorfodi i newid eich cynlluniau ar y funud ola, ac er ei fod yn ymddangos yn dipyn o niwsans, mi fydd yn fendith yn y pen draw.

**TAURUS:**

Fe ddylai hwn fod yn fis creadigol iawn, cewch gyfle i fynegi eich talent ar sawl achlysur. O hyn ymlaen a hyd ddiwedd y mis mae Gwener eich planed arbennig chi yn gwenu'n braf arnoch chi, gan ddod â rhamant a lwc di-ben-draw i'ch rhan.

**GEMINI:**

Cymrwch olwg manwl ar eich sefyllfa ariannol, fe allai fod problemau'n codi i chi. Thâl hi ddim i chi fod yn styfnig nawr, ond eto i gyd fe fydd angen i chi sefyll eich tir er mwyn rhwystro pobl eraill rhag cymryd mantais ohonoch chi.

**CANCER:**

O'r diwedd mi fyddwch yn gallu cymryd agwedd mwy positif tuag at eich bywyd. Peidiwch â chael eich temtio i dorri rheolau, ond falle bydd hi'n bosib i'w plygu nhw ychydig bach. Mae pethau lwcus a phleserus ar fin digwydd yn eich bywyd personol.

**LEO:**

Mae pethau'n addo mynd yn hwylus iawn i chi trwy gydol y mis hwn. A dim ond i'r haul ddala i wenu mi fyddwch yn llawn ynni ac wrth eich bodd, rŷch chi'n dwli ar yr haul. Mae eich sefyllfa ariannol yn edrych yn iachach nag y gwnaeth ers tro hefyd.

**VIRGO:**

Os am brynu neu werthu eiddo fe ddylech fod yn lwcus nawr. Rŷch chi'n teimlo'n optimistaidd iawn ar hyn o bryd, ac mae'r sêr am eich helpu i lwyddo. Mi fyddwch chi'n llawn ynni y mis Gorffennaf hwn ac yn llwyddo i gyflawni llawer iawn.

**LIBRA:**

Mae digwyddiadau pwysig ar fin dod i'ch rhan, cewch arlliw ohonynt y mis hwn. Gall fod yn gyfnod creadigol iawn i chi, a chyfnod lwcus hefyd. Er, cofiwch, ddaw dim heb weithio amdano, yma i'ch helpu mae'r sêr, nid i wneud y gwaith drosoch chi.

**SCORPIO:**

Da chi, daliwch y tafod deifiol 'na, mae 'na beryg mawr y byddwch chi'n rhoi pryd ohono i rywun ac yn tynnu nyth cacwn am eich pen. Ond i chi ddal eich tafod ac agor eich llygaid, fe welwch fod pobl am gydweithio â chi, ac am eich helpu i lwyddo.

**SAGITTARIUS:**

Mae trobwynt pwysig o'ch blaen, naill ai yn y gwaith neu yn eich bywyd personol. Ond mae rhywfaint o densiwn o'ch cwmpas hefyd;wynebwch y broblem cyn iddi fynd yn rhy fawr. Bydd rhyw ddigwyddiad y mis hwn yn gwneud i chi gynllunio at y dyfodol.

**CAPRICORN:**

Mae barn pobl eraill ohonoch yn bwysig iawn nawr, felly peidiwch â gwneud dim i gythruddo pobl mewn awdurdod. Mae hi'n amser ardderchog i geisio am swydd newydd neu i ofyn am godiad cyflog. Mae lwc o'ch ochr, ond i chi ymarfer ychydig o ddoethineb.

**AQUARIUS:**

Mis pleserus iawn, yn llawn o gymdeithasu ac ymlacio fydd hwn. Mae bywyd wedi bod yn llawn gwaith i chi yn ddiweddar, mae'n hen bryd felly i chi gael hoe fach. Pam nad ewch am wythnos neu ddwy o wyliau yn yr haul?

**PISCES:**

Fe ddylech wneud yn dda yn ariannol nawr; os am fuddsoddi 'ch ffortiwn dyma'r union amser i ofyn cyngor gan yr arbenigwyr. Ond gair o rybudd, cadwch yn glir o unrhyw fath o gamblo - dim ond colli wnewch chi. Mae llythyr cyffrous ar ei ffordd i chi.






*ENW NEWYDD,*
*LOGO NEWYDD,*
*YNGHYD Â*
*THYMOR NEWYDD...*

***Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC***

*Mewn harmoni â Chymru, mewn tiwn â'r byd*

Am fanylion tymor 1993/4 a chopi o'r rhaglen,
ffoniwch Cathi Thomas ar 0222 572686.

*Prif Arweinydd* **Tadaaki Otaka**
*Cyd Arweinydd* **Grant Llewellyn**
*Prif Arweinydd Gwadd* **David Atherton**

West Glamorgan
THEATR
Gorllewin Morgannwg

yn cyflwyno ar gyfer Eisteddfod De Powys 1993

# "CLUSTIE MAWR, MOCH BACH"

(addasiad o'r cynhyrchiad llwyddiannus "Smiling Through")

**'Noson o grio, chwerthin a gobaith'**
**'Noson *par excellence*'**
Aelodau o gynulleidfa "Smiling Through"

## Neuadd Ysgol Uwchradd LLANDRINDOD

2 - 6 Awst 1993 8.00 p.m.
Tocynnau: £5.00 (Gostyngiadau £2.50). Ar gael ym Mhabell y Theatrau ar Faes yr Eisteddfod.

**NEU £4.00 (Gostyngiadau £2.00) os archebir CYN 28 Gorffennaf**
trwy ffonio llinnell archebu'r Cwmni — 0639-642686.

Theatr Gorllewin Morgannwg, Uned 3, Ystad Ddiwydiannol Heol Milland, Castell Nedd, SA11 1NJ

# Huw Roberts BSc, ACMA
## *Cyfrifydd*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol*

**Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills, Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA**
**Ffôn Llantrisant 224182**

## *Gwasanaeth i Gymry Caerdydd*
***Yn yr Eglwys Newydd***

CAPITAL Travel

ABTA

*Rhan o Gwmni Teithio Richards*

*Medrwch wneud eich trefniadau ar gyfer eich*
## *GWYLIAU '93*
*gyda Chymry Cymraeg*
***BARBARA neu ALED***
*Mae'r ddau yn aros am eich galwad – ffoniwch*

**Capital Travel Cyf.**
**11 Heol Penlline**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**(0222) 628661**

## LLYFRAU NEWYDD SBON

**GWYNEDD** *Nan Griffiths*
Dyma drysor o gyfrol, yr arweinlyfr darluniadol cyntaf o'i fath i'w gyhoeddi yn Gymraeg. Dyma lyfr hwylus i'w gario yn y car neu i bori ynddo cyn crwydro lonydd Gwynedd, ardal sydd gyda'r harddaf a'r cyfoethocaf ei diwylliant yng Nghymru. Cyfoethogir y testun gan doreth o luniau lliw.
ISBN 0 86383 788 3 **£8.95**

The Welsh Classics: 5
**IOLO GOCH: POEMS**
*Cyfieithwyd a golygwyd gan Dafydd Johnston*
Ceir yn y gyfrol hon gyfieithiadau Saesneg o'r holl gerddi hynny o eiddo Iolo Goch (c1320-1398), ynghyd â'r testunau Cymraeg gwreiddiol. Yn ei gyflwyniad y mae'r golygydd yn egluro cefndir llenyddol a hanesyddol gwaith y bardd, a darperir nodiadau esboniadol ar bob un o'r cerddi.
ISBN 0 86383 707 7 (*Dyddiad cyhoeddi 19 Awst*)
**£14.95** clawr caled

**Y DDINAS AUR** *Peter Dickinson, addas. Robin Williams*
Er bod y gyfrol hon yn ailadrodd 33 o straeon Beiblaidd cyfarwydd, ni fynegwyd hwy erioed o'r blaen yn y dull gorchestol hwn. Mae dychymyg bywiol yr awdur yn mynd â ni yn ôl i gyfnod cyn i'r Beibl gael ei ysgrifennu pan adroddid y straeon ar lafar.
Yn cyfateb i ddawn storïol Peter Dickinson, gwelir camp yr arlunydd, Michael Foreman mewn cyfres o ddarluniau lliw cwbl gyfareddol.
ISBN 0 86383 873 1 **£9.75**

***Mynnwch gopi o'n catalog diweddaraf***

GOMER **Gwasg Gomer, Llandysul, Dyfed SA44 4BQ**
**Ffôn: 0559 362371 Ffacs: 0559 363758**



sain

## O GAM I GAM

- Y FFORD I FFITRWYDD -

gyda Iona

FIDEO 1½ AWR

£10.99

HEFYD AR SAIN

SIÂN JAMES - CASET/CD NEWYDD "DISTAW"
TONY AC ALOMA - CASGLIAD O'R GOREUON
ODDI AR RECORDIAU CAMBRIAN
TIMOTHY EVANS - "NID YW'N GYFRINACH"
PIGION Y SÊR - CASGLIAD O 12 O ARTISTIAID POBLOGAIDD SAIN
20 UCHAF EMYNAU CYMRU - CD/CASET

HYN OLL, A LLAWER IAWN MWY!

SAIN - LLANDWROG - CAERNARFON - GWYNEDD (0286) 831 111



## SAUNDERS LEWIS
## LETTERS TO MARGARET GILCRIEST

Golygwyd gan Mair Saunders Jones
Ned Thomas a Harri Pritchard Jones

Daw swmp y llythyrau yn y gyfrol hon o'r cyfnod 1914–1924, ond ceir eraill o'r cyfnod wedi iddynt briodi, ac yn arbennig o dymor carchariad Saunders Lewis yn Wormwood Scrubs. Gellir eu darllen yn y lle cyntaf fel dogfen hynod ddiddorol o'u cynfod. Mae yma flas yr oed a'r oes; breuddwydion ac ofnau pobl ifanc, eu syniadau am grefydd, gwleidyddiaeth a chelfyddyd – yn enwedig llenyddiaeth; a'r hen drefn yn gwegian wrth i filoedd gael eu lladd ym merddwr a mwd ffosydd Ffrainc.

*Tua 700 tudalen, Awst 1993, clawr caled, £30.00*

**GWASG PRIFYSGOL CYMRU**
6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd, CF2 4YD
☎ 0222-231919 (24 awr)



## Hwyl Haf!

**STORÏAU**
**Genod Neis** / Eleri Llewelyn Morris / £4.95
**Rhithiau** / Martin Dafis / £4.95

**BARDDONIAETH**
**Duwieslebog** / Elin Llwyd Morgan / £3.95

**I BLANT**
**Dyfal Donc Endaf** / Pam Thomas / £2.95
**Dyma Fi!**—argraffiad newydd / £4.95

**CERDD**
**Carol yr Alarch** / Llifon Hughes-Jones / £5.95

**DYDDIADURON**
**Addysg** £3.95 / **Desg** £5.95 / **Poced** £2.95

**SAESNEG**
**The Academic Inn** / Leopold Kohr / £6.50
**Snowdonia–Myth & Image** / Anthony Griffiths / £5.95
**Pigs & Ingots** / A.M.Schöne & Tina Carr / £9.95
**The Seven Wonders of Wales** / £2.95

**ERAILL**
**Sampleri Cymreig** / Joyce Jones / £6.95
**Poster Ymgyrch Losgi** / £1.95
**Cardiau Duwiau Celtaidd** / Ioan Einion / 95c

y Lolfa
TALYBONT
CEREDIGION
SY24 5HE
*ffôn* (0970) 832 304
*ffacs* 832 782


Cynllunlwyd ac argraffwyd gan Colin Watkins. 99 Maes y Coed Road, Mynydd Bychan, Caerdydd CF4 4HE. Ffôn (0222) 624533 / 0831 362400